**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod yr Is-bwyllgor Trwyddedu Statudol 2018/2019

**Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Gwener, 3 Mai 2019 am 10.00am**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd** | **Y Cynghorydd** |
|---|---|
| J P Curtice | B J Rowlands |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Aled Gruffydd | Cyfreithiwr |
| Becca John | Swyddog Trwyddedu |
| Yvonne Lewis | Arweinydd Tîm, Trwyddedu |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymgeisydd**

Mr E Thamilselvan – Ymgeisydd
Mr S Kanapathi - Asiant

---

## 11 Datganiadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 12 Deddf Trwyddedu 2003 - Adran 17 Cais am Drwydded Mangre newydd - Bonymaen Local, 1 Heol Llanerch, Bôn-y-maen, Abertawe SA1 7AY

Croesawodd y cadeirydd yr holl gyfranogwyr i'r cyfarfod gan amlinellu'r weithdrefn i'w mabwysiadu gan yr Is-bwyllgor wrth ystyried y cais.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r holl gynrychiolwyr gyflwyno'u hunain.

Adroddodd y Swyddog Trwyddedu am y cais am drwydded mangre newydd mewn perthynas â Bonymaen Local, 1 Heol Llanerch Bôn-y-maen, Abertawe SA1 7AY Cyfeiriodd at yr amcanion trwyddedu, ystyriaethau polisi a'r arweiniad gan y Swyddfa Gartref. Cyfeiriwyd yn benodol at y cynllun lleoliad ar gyfer y fangre yn atodiad A, cynllun lleoliad y fangre yn Atodiad B, amodau sy'n gyson â'r atodlen weithredu yn Atodiad C, y sylwadau a wnaed gan bobl eraill yn Atodiad D1, D2, D3, D4 a D5. Crynhodd fanylion y deisebau. Atodwyd copi o'u sylwadau yn Atodiad D1. Roedd y sylw'n ymwneud ag atal niwsans cyhoeddus.

Cyfeiriodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu at sylw gan Karen Fender nad oedd yn gallu dod i'r cyfarfod, ac roedd wedi gofyn a allai'r pwyllgor ystyried ei e-bost fel helaethiad o'i sylw gwreiddiol yn Atodiad D3. Nododd aelodau'r sylwadau a helaethwyd.

Ar ran llofnodwyr dwy ddeiseb yn Atodiad D1, ymhelaethodd y Cynghorydd P Lloyd, Cynghorydd Ward dros Fôn-y-maen, ymhellach ar y sylwadau ysgrifenedig a oedd yn gwrthwynebu'r cais, ac amlygodd ei bryderon ynghylch tanseilio'r Amcanion Trwyddedu Statudol mewn perthynas â niwsans cyhoeddus.

Dywedodd Mr S Kanapathi, yr Asiant a oedd yn cynrychioli'r ymgeisydd, Mr E Thamilselvan, fod gan yr ymgeisydd 10 mlynedd o brofiad o redeg busnes yng Nghaerdydd, sy'n debyg. Mae'r ymgeisydd yn byw uwchben y fangre yng Nghaerdydd ar hyn o bryd. Cyfeiriodd at y sylwadau ysgrifenedig a datganodd fod yr ymgeisydd yn dymuno lleihau'r awr derfynol i 10pm.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau cadarnhaodd yr ymgeisydd y canlynol:

- Roedd ganddo berthynas ddymunol â phreswylwyr gerllaw ei fangre bresennol.
- Mae'n bwriadu cyflogi dau aelod o staff yn ei siop.
- Nid yw'r ardal o gwmpas ei siop bresennol yn dioddef unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Ei fwriad ef oedd byw uwchben y siop, wrth reoli'r ddwy siop.
- Byddai biniau sbwriel yn cael eu darparu y tu allan i'r siop.
- Ymdrinnir ag unrhyw achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy gyfathrebu cyfeillgar.
- Mewn perthynas ag amod 4 yn Atodiad C, cadarnhaodd y byddai biniau sbwriel yn cael eu gosod ac y byddai'r ardal yn cael ei glanhau'n rheolaidd.

**PENDERFYNWYD** eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r gwrandawiad yn unol â pharagraff 14 o Reoliadau Deddf Trwyddedu (Gwrandawiadau) 2005,fel y gall yr Is-bwyllgor gael cyngor cyfreithiol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

Trafododd yr aelodau'r materion ynghylch y cais.

**(SESIWN AGORED)**

Rhoddodd y cyfreithiwr a oedd yn cynghori'r Is-bwyllgor drosolwg cynhwysfawr o'r cyngor cyfreithiol a roddwyd.

Dywedodd y Cadeirydd fod yr Is-bwyllgor wedi ystyried y cais a'r sylwadau a wnaed ynghyd â holl anghenion a buddion yr holl bartïon o ran Datganiadau Polisi Trwyddedu'r cyngor, arweiniad statudol a gofynion Deddf Trwyddedu 2003.

**Penderfynodd** yr Is-bwyllgor **GANIATÁU'R** cais ar yr amod bod amodau'n gyson â'r amserlen weithredu ac wedi'u diwygio fel yr ystyrir eu bod yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu isod.

1. Cyflenwi alcohol oddi ar y fangre - dydd Llun i ddydd Sul 0700 – 2200.

2. Bydd system recordio teledu cylch cyfyng gynhwysfawr yn cael ei gosod a'i chynnal a bydd yn ffilmio'r ardaloedd masnachu a'r holl fynedfeydd ac allanfeydd yn y fangre. Rhaid i'r system recordio'n barhaus pan fydd y fangre ar agor ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy ac ar bob adeg pan fydd cwsmeriaid yn y fangre. Rhaid i'r system allu darparu lluniau o safon dystiolaeth, yn enwedig cydnabyddiaeth wyneb. Bydd y recordiadau ar gael yn syth ar gais yr Heddlu neu swyddog awdurdodedig.

3. Bydd aelod o staff y fangre sy'n deall sut i weithredu'r system teledu cylch cyfyng ar yr fangre o hyd pan fydd ar agor i'r cyhoedd. Bydd yr aelod o staff yn gallu dangos data neu luniau diweddar i'r heddlu neu swyddogion awdurdodedig ar gais gyda chyn lleied o oedi â phosib.

4. Byddai'r siop yn gweithredu'r gyfraith iechyd, diogelwch a diogelwch tân mewn perthynas â siop gyfleustra. Byddai hefyd yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau a bennwyd gan y grŵp cyfanwerthu.

5. Mae'r siop mewn ardal breswyl. Bydd yn gweithio'n agos gyda phobl leol i gadw'r ardal yn lân ac yn daclus drwy'r amser neu'n cymryd camau i sicrhau hynny. Rhoddir biniau sbwriel o flaen y fangre, a'r ymgeisydd fydd yn gyfrifol am gynnal y biniau.

6. Gweithredir cynllun prawf oedran Her 25 yn y fangre a'r unig ffurfiau adnabod derbyniol fydd llun, dyddiad geni a marc holograffig.

7. Cedwir cofnod yn rhoi manylion pob achos o wrthod gwerthu alcohol. Dylai'r cofnod gynnwys dyddiad ac amser gwrthod y gwerthu ac enw'r aelod o staff a wrthododd ei werthu. Dylai'r cofnod fod ar gael i'w archwilio yn y fangre gan yr heddlu neu swyddog awdurdodedig y cyngor ar bob achlysur pan fydd y fangre ar agor.

8. Rhaid i'r fangre gadw cofnodion wedi'u diweddaru sydd ar gael i'w harchwilio o hyfforddiant staff yn unol â gwerthiannau sy'n gysylltiedig ag oedran.

9. Bydd llyfr cofnod achosion yn cael ei gadw yn y fangre sy'n dangos manylion dyddiad ac amser pob ymosodiad, anaf, damwain, ymyriad staff neu achos o droi allan, yn ogystal â manylion aelodau'r staff sy'n rhan o'r broses, natur y digwyddiad a'r cam gweithredu/canlyniad. Rhaid bod y llyfr ar gael i'w archwilio gan yr heddlu a swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Lleol.

10. Rhaid arddangos arwyddion o flaen y fangre sy'n annog unigolion i beidio ag ymgynnull yno. Rhaid i Swyddogion Trwyddedu gytuno ar yr union eiriad i'w datblygu.

Daeth y cyfarfod i ben am11.11am

**Cadeirydd**